BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

27 Mawrth 2018

Annwyl Aelod Cynulliad

Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 15 Mawrth. Mae'r canlynol yn grynodeb o'i drafodaethau a'i benderfyniadau.

***Adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau***

Trafododd y Bwrdd y dystiolaeth yr oedd yr adolygiad wedi'i chael hyd yma. Trafododd y Bwrdd pa faterion a allai fod angen ystyriaeth bellach a pha faterion y gellid mynd i'r afael â hwy yn gynt ac o ganlyniad mae wedi penderfynu ymgynghori ar rai materion ar unwaith. Mae manylion am yr ymgynghoriad wedi'u nodi mewn **llythyr ar wahân**.

***Adolygiad blynyddol o Benderfyniad 2018-19***

*Cyflogau staff cymorth ar gyfer 2018-19*

Cytunodd y Bwrdd i gynyddu cyflogau staff cymorth ar gyfer 2018-19 gan 2.3 y cant yn unol â'r ffigurau dros dro ar gyfer newid mewn enillion canolrifol yng Nghymru, fel y'i mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Bydd y newid yn cael ei weithredu ar 1 Ebrill 2018.

Fel y nodir yn y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, caiff cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi eu haddasu'n awtomatig bob blwyddyn yn unol â'r newid mewn enillion canolrifol yng Nghymru, fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Felly, bydd cyflogau'r Aelodau a deiliad swyddi yn cynyddu o fis Ebrill, yn yr un modd â chyflogau staff cymorth.

Nododd y Bwrdd yr ymateb a ddaeth i law a gododd bryderon ynghylch y gwahaniaeth yng nghyflogau staff cymorth a staff Comisiwn y Cynulliad. Cytunodd y Bwrdd i drafod y mater hwn fel rhan o'r adolygiad o gymorth staffio i'r Aelodau, gan gymryd i ystyriaeth swyddi cymaradwy mewn deddfwrfeydd eraill a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

*Lwfans costau swyddfa 2018-19*

Cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r Lwfans Costau Swyddfa ar gyfer 2018-19 gan 5 y cant. Mae hyn yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi 2017 (3 y cant) ac

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

i fynd i'r afael â'r galwadau cost ychwanegol y disgwylir i'r Aelodau eu hariannu o'u cyllideb, megis y feddalwedd gweithiwr achos a gofynion estynedig y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Bydd y newid yn cael ei weithredu ar 1 Ebrill 2018.

Nododd y Bwrdd y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y pwysau tymor hwy ar y Lwfans Costau Swyddfa yn ogystal â marchnadoedd rhent uwch mewn rhai rhannau o'r wlad. O dan y cynnig i gynyddu'r gallu i drosglwyddo arian, byddai'r Aelodau hefyd yn gallu cynyddu'r lwfans hwn drwy drosglwyddo unrhyw gronfeydd dros ben o'u lwfans staffio, ffigur sydd â therfyn uchel o 25 y cant o'r Lwfans Costau Swyddfa Cytunodd y Bwrdd i fyfyrio ar effaith y newidiadau hyn yn ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

Cytunodd y Bwrdd hefyd i gynnig lwfans heb derfyn uchaf a fydd wedi'i gyfyngu i'r meini prawf[1] a ddefnyddir ar hyn o bryd i ganiatáu i'r Aelodau weithredu argymhellion diogelwch.

*Gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2018-19*

Cytunodd y Bwrdd y byddai'r Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer 2018-19 yn aros ar y cyfraddau cyfredol y darperir ar eu cyfer yn y Penderfyniad.

Nododd y Bwrdd y materion a godwyd mewn perthynas â'r mynegai a ddefnyddir ar gyfer uwchraddio'r lwfans yn ogystal â'r modd y diffinnir ffiniau'r lwfans. Bydd y Bwrdd yn ystyried y materion hyn ymhellach fel rhan o'i waith ar gyfer creu Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Cyhoeddir Penderfyniad diwygiedig ar gyfer 2018-19 maes o law.

***Y rhwystrau a'r cymhellion i ymgeisio yn etholiad y Cynulliad***

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth bellach i'r adroddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, a gynhaliodd yr adolygiad ar ran y Bwrdd. Fodd bynnag, yn sgil y camau diwydiannol parhaus sy'n effeithio ar y Ganolfan, gohiriwyd y trafodaethau ynghylch y trefniadau cyhoeddi ar gyfer yr adroddiad. Cytunodd y Bwrdd i wahodd cynrychiolwyr o'r Ganolfan i'w gyfarfod ym mis Mai i drafod camau nesaf yr adolygiad.

---

[1] Y cynhelir yr adolygiad diogelwch gan staff diogelwch hyfforddedig ac yr ystyrir bod yr argymhellion yn angenrheidiol (wedi'u categoreiddio fel rhaid a dylai at ddibenion yr adroddiad) ac y ceir dau ddyfynbris neu ragor ar gyfer yr holl waith.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

**Materion eraill**

Nododd y Bwrdd y datganiad a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn y **Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth 2018**. Bydd y Bwrdd yn ystyried goblygiadau'r gwaith hwn ar y polisïau y mae'n gyfrifol amdanynt ynglŷn â staff cymorth unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i sut y byddai'n ymgysylltu â Grwpiau Cynrychioli'r Aelod a'r staff cymorth yn y dyfodol a bydd yn ysgrifennu at aelodau'r grwpiau hynny ar wahân i amlinellu ei gynigion.


Trafododd y Bwrdd ei gynnydd hyd yma yn erbyn y blaenoriaethau strategol a nodir yn ei **strategaeth ar gyfer 2016-2021**. Cytunodd y Bwrdd i gyhoeddi crynodeb o'i gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol hyn yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18.

Hefyd, ystyriodd y Bwrdd ei raglen waith ar gyfer gweddill ei dymor yn y swydd. Cytunodd i lunio cynllun manylach ar gyfer y gwaith hwn a rhannu manylion am y gwaith hwn maes o law er mwyn hysbysu'r Aelodau a'r staff cymorth.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer.

Os hoffech drafod unrhyw fater gyda mi, neu gydag un o'm cyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy’r **ysgrifenyddiaeth**.

Cofion gorau



**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.